Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 11:
Fe allwn ei wneud

Amcan Dysgu

- Cynnal a chwblhau tasg fenter gan ddefnyddio amrediad o sgiliau trefnu.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Hunanhyder
- Penderfyniad

Cysylltiadau

- Gweithio gydag eraill

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Rheoli Adnoddau

Gweithgareddau Dysgu

Mae'r disgyblion yn cynllunio'r trefniadau ymarferol ar gyfer gwerthu cynnyrch/gwasanaeth gorffenedig ac yn cytuno a dyrannu tasgau. Er enghraifft,

- paratoi ac ymarfer cyflwyniad perswadiol byr am y cynnyrch
- creu rhestr brisio a gwybodaeth eglur am eu cynnyrch/gwasanaeth ar gyfer eu cwsmeriaid
- cynllunio arddangosfa ddeniadol.

Erbyn hyn dylai'r disgyblion fod yn barod i ddechrau masnachu, gwerthu eu cynnyrch neu ddarparu eu gwasanaeth.

Mae'r disgyblion yn cadw cofnod o werthiannau ac arian sy'n cael ei dderbyn.

Mae'r disgyblion yn gwneud cofnod ffotograffig o'u prosiect menter.

Ar ôl y gweithgaredd menter cynhaliwch sesiwn ôl drafod gyda'r dosbarth i ddarganfod beth mae pob grŵp wedi ei gyflawni a beth arall sydd angen ei wneud.

Gweithgaredd 11:
Fe allwn ei wneud

Cynradd Uwch

Canlyniad dysgu

Bydd disgyblion wedi datblygu sgiliau cynllunio syml a gweithio gyda'i gilydd mewn timau gan gytuno ar gyfrifoldebau i gwblhau tasg menter.

Adnoddau sydd eu hangen

- Cynnyrch
- Arian parod ar gyfer rhoi newid
- Til / cofrestr arian parod syml
- Camera digidol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando ar gyfer ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

2. Rhifedd

- Llythrennedd ariannol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government